



Briff Ymchwil
**Y Gyfres Cynllunio:
16 - Aseiad Rheoliadau
Cynefinoedd**

Awdur: **Helen Davies a Wendy Dodds**

Dyddiad: **Rhagfyr 2017**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Helen Davies a Wendy Dodds**

Dyddiad: **Rhagfyr 2017**

Rhif Papur: **17-038**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6548

✉ : Wendy.Dodds@Cynulliad.Cymru

🌐 : seneddymchwil.blog

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil
Y Gyfres Cynllunio:
16 - Aseiad Rheoliadau
Cynefinoedd



Cynnwys

1.	Beth yw Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd?	1
2.	Pryd mae angen HRA?	4
3.	Beth yw'r broses ar gyfer cynnal HRA?	4
4.	A ellir herio penderfyniad HRA?	12
5.	Ffynonellau Allweddol	13
	Llywodraeth Cymru	13
	Deddfwriaeth Allweddol.....	13
	Y Comisiwn Ewropeaidd.....	13
	Yr Arolygiaeth Gynllunio	13
	Y Gwasanaeth Ymchwil	13

1. Beth yw Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd?

Cyflwynwyd proses Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gan Gyfarwyddbau Natur yr Undeb Ewropeaidd: *Cyfarwydddeb yr UE 92/43 / EEC (y Gyfarwydddeb Cynefinoedd)* a *Chyfarwydddeb yr UE 2009/147 / EC (y Gyfarwydddeb Adar)*. Y *Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017* a'r *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017* yw'r prif fodd y mae gofynion y Cyfarwyddbau hyn yn cael eu trosi i gyfraith ddomestig. Mae'r broses HRA wedi'i nodi yn Rhan 6 (Asesu Cynlluniau a Phrosiectau) o'r *Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017* (y 'Rheoliadau Cynefinoedd'). Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn gymwys ar y tir ac ar y môr hyd at 12 milltir fôr o'r arfordir. Mae'r *Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017* yn gymwys yn nyfroedd y DU fwy na 12 milltir fôr o'r arfordir.

Diben HRA yw atal cynllun neu brosiect rhag cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau prosiectau eraill. Mae safleoedd Ewropeaidd wedi'u dynodi o dan y Cyfarwyddbau Natur fel naill ai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) - a elwir yn safleoedd Natura 2000 (N2K) ar y cyd. Mae HRA hefyd yn gymwys i safleoedd gwlyptiroedd Ramsar (sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 oherwydd eu gwlyptiroedd sydd o bwys rhyngwladol), ymgeiswyr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (pSPA), a safleoedd morol presennol ac arfaethedig ar y môr Ewropeaidd.

Mae'r broses HRA yn helpu i sicrhau bod cyfanrwydd cynefinoedd **Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II** sy'n ryngwladol bwysig, ac y cafodd y safleoedd N2K eu dynodi ar eu cyfer, yn cael ei gynnal. Er bod HRAs yn darparu gwarchodaeth lem, nid ydynt yn gwahardd datblygiad neu weithgareddau newydd. Yn lle hynny, maent yn golygu archwiliad fesul achos o oblygiadau pob safle N2K, ei nodweddion cymwys a'i amcanion cadwraeth.

Yn gyffredinol, mae HRA yn rhwymedigaeth i roi lle blaenllaw i bryder am effeithiau posibl ar safleoedd N2K ym mhob penderfyniad a wneir mewn perthynas â chynlluniau a phrosiectau yn ystod pob cam, gan gynnwys penderfyniadau i ddarparu cyllid neu gymorth arall. Mae'n golygu defnyddio cyfres o brofion yn ystod llawer o gamau.

Mae nifer o bartïon yn rhan o'r aseiad. Yr "ymgeisydd" yw'r person neu'r datblygwr sy'n gofyn am ganiatâd ar gyfer cynllun neu brosiect yn amodol ar ofynion yr HRA. Fel y nodwyd yn Rheoliad Cynefinoedd 63(2):

(2) A person applying for any such consent, permission or other authorisation must provide such information as the competent authority may reasonably require for the purposes of the assessment or to enable them to determine whether an appropriate assessment is required.

Yr "awdurdod cymwys" yw'r gwneuthurwr penderfyniad o dan ofynion yr HRA a gall gynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau harbwr a chyrrff cyhoeddus eraill. Maent yn penderfynu a oes angen aseiad priodol ai peidio, a fyddai cynigion yn cael effaith andwyol ac, os oes angen, p'un a yw profion rhanddirymiad yn cael eu bodloni ai peidio (Blwch 1 a Thabl 1). Cyfrifoldeb yr awdurdod cymwys yw cynnal yr aseiad priodol. Rhaid i'r awdurdod cymwys ymgynghori â'r "corff cadwraeth natur statudol (SNCB)" yn ystod aseiad priodol i roi cyngor a chymorth ar rai penderfyniadau. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yw'r SNCB. Mae Rheoliad Cynefinoedd 63(4) yn darparu ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn ôl disgrisiwn yr awdurdod cymwys (nid yw'n ofyniad statudol). Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" yng Nghymru o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. O dan ofynion yr HRA, rhaid i'r awdurdod cymwys roi gwybod i'r awdurdod priodol cyn iddo gydsynio i gynllun neu brosiect (er ei fod

yn cael effeithiau andwyol ar gyfanwydd safle Ewropeaidd) ar sail bodloni'r profion rhanddirymu. Mae'r profion yn gwahaniaethu yn dibynnu a oes gan y safle fath o rywogaeth neu gynefin blaenoriaeth (Rheoliad Cynefinoedd 107). Gallai'r awdurdod priodol ganiatáu i'r rhanddirymiad fynd ymlaen, neu orchymyn na chaiff y cynllun neu'r prosiect ei gymeradwyo. Mewn rhai achosion gall yr awdurdod priodol hefyd fod yn awdurdod cymwys. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n goruchwyllo gweithrediad y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a gellir ymgynghori â hwy mewn perthynas â rhanddirymiadau.

Blwch 1: Asesiad priodol, effaith andwyol a rhanddirymiad

Mae Pennod 8 y Rheoliadau Cynefinoedd yn gweld **cynlluniau defnydd tir** yn destun gofynion HRA. Rhaid i hyn ddigwydd cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu a rhaid iddo gael ei wneud yn ailadroddol yn ystod pob cam o baratoi'r cynllun. Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio yw cwmpasu a yw'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle(oedd) N2k neu safle Ramsar. Os ystyrir bod y cynllun yn debygol o gael effaith, rhaid i'r awdurdod cynllunio gynnal **asesiad priodol** mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae **Nodyn Cyngor Technegol 5 Llywodraeth Cymru (TAN5)** yn disgrifio'r broses hon fel 'Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd' ac mae'n nodi'r dull y dylid ei ddefnyddio ar gyfer cynlluniau datblygu.

Ar gyfer **prosiectau**, ar ôl sgrinio unrhyw brosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle(oedd) N2K, a lle nad yw mesurau i osgoi'r tebygolrwydd hwnnw ar gael, bydd angen symud ymlaen i'r cam **asesu priodol**. Bydd hyn yn edrych ar gydrannau'r prosiect a'u heffaith bosibl ar weithrediad ecolegol nodweddion y safle ac amcanion cadwraeth y safle. Fe'i cynhelir gan yr awdurdod cymwys naill ai cyn iddo roi caniatâd i'r prosiect neu cyn iddo benderfynu ymgymryd â'r prosiect. Bydd ei gwmpas, y wybodaeth sydd i'w chynnwys a'r amserlen sy'n ofynnol i'w gyflawni yn amrywio fesul achos.

O dan Reoliad Cynefinoedd 63(5-6), dim ond os yw'r awdurdod cymwys wedi penderfynu na fydd y cynllun neu'r prosiect yn cael **effaith andwyol** ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd y bydd y cynllun neu'r prosiect yn mynd rhagddo. Fel y diffinnir yn **nogfen arweiniad 'Rheoli safleoedd Natura 2000: darpariaethau Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43 / EEC '(PDF 787KB)** y Comisiwn Ewropeaidd 2000:

The integrity of the site involves its ecological functions. The decision as to whether it is adversely affected should focus on and be limited to the site's conservation objectives.

Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn darparu **rhanddirymiad** o dan Erthygl 6 (4) sy'n caniatáu, mewn amgylchiadau cyfyngedig, i gynllun neu brosiect gael ei gymeradwyo er y byddai'n cael effaith andwyol neu y gallai gael effaith andwyol. Fel y nodwyd yng **nghanllawiau (PDF 156KB)**, Defra 2012 dim ond o dan y gofynion rhanddirymiad y gall cynllun neu brosiect fynd rhagddo ar yr amod bod y tri phrawf dilyniannol canlynol yn cael eu bodloni:

-There must be no feasible alternative solutions to the plan or project which are less damaging to affected European site(s);

-There must be "imperative reasons of overriding public interest" (IROPI) for the plan or project to proceed; and

- All necessary compensatory measures must be secured to ensure that the overall coherence of the network of European sites is protected.

Gan fod y Comisiwn Ewropeaidd yn goruchwyllo gweithrediad y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, gellir ymgynghori â hwy mewn perthynas â rhanddirymiaid. Yng Nghymru, mater i Weinidogion Cymru yw'r penderfyniad a ddylid caniatáu i brosiect fynd rhagddo o dan ddarpariaethau Erthygl 6 (4). Mae canllawiau Defra yn tynnu sylw at y ffaith er mai nifer fach o gynlluniau neu brosiectau fyddai'n cyrraedd y cam hwn o ystyriaeth, ni ddylai ymgeiswyr gael eu dychryn gan y broses rhanddirymiaid, ac os bodlonir y profion, gellir cymeradwyo cynllun neu brosiect.

2. Pryd mae angen HRA?

Dywed Erthygl 6 (3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd:

Any plan or project not directly connected with or necessary to the management of the site but likely to have a significant effect thereon, either individually or in combination with other plans or projects, shall be subject to appropriate assessment of its implications for the site in view of the site's conservation objectives.

Felly, rhaid i HRA gael ei gymhwyso i brosiectau morol a daearol (prosiectau datblygu neu fel arall) a allai effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y rhywogaethau a'r cynefinoedd y dynodwyd y safleoedd N2K ar eu cyfer. Ceir enghraifft o HRA o'r fath ym Mluch 5. Mae HRA hefyd yn gymwys i'r fframwaith cynllunio gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol, **Fframwaith Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** (PDF 641KB) a **Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol** (PDF 498KB).

Yn ôl **'Asesiad y Comisiwn Ewropeaidd o gynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio'n sylweddol ar safleoedd Natura 2000'** (PDF 673 KB), gellir defnyddio dangosyddion allweddol i benderfynu a allai cynllun neu brosiect gael effaith sylweddol ar safle N2K. Mae'r rhain yn cynnwys y mathau o effaith a'r dangosyddion arwyddocâd canlynol:

- Colli ardal cynefin: canran y golled;
- Darnio: hyd neu barhad, lefel mewn perthynas â maint gwreiddiol;
- Aflonyddu: hyd neu barhad, pellter o'r safle;
- Dwysedd poblogaeth: amserlen ar gyfer ailosod;
- Adnodd dŵr: newid cymharol; ac
- Ansawdd dŵr: newid cymharol mewn cemegau dangosol allweddol ac elfennau eraill.

Cynghorir ymgeiswyr i gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ar ofynion HRA gyda'r awdurdod cymwys perthnasol a'r SNCB. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch effaith debygol datblygiad arfaethedig ar unrhyw safle N2K, er enghraifft, mae Pennod 5 o **Bolisi Cynllunio Cymru** (Rhifyn 9, Tachwedd 2016) yn argymhell bod datblygwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'u Hawdurdod Cynllunio Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn ymgeisio. Mae **Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (TAN 5)** (2009) yn ychwanegu "it is essential that all potentially important nature conservation issues ... are identified and fully addressed at the earliest stages of preparing a planning application". Yn ogystal ag asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, dylai ymgeiswyr hefyd ystyried yr angen i asesu unrhyw gynllun neu brosiect o dan **Gyfarwydddeb yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)** (PDF 1.92MB) a **Chyfarwydddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** (PDF 166KB).

3. Beth yw'r broses ar gyfer cynnal HRA?

Er bod y rhwymedigaeth i gynnal HRA yn deillio'n benodol o Erthygl 6 (3) a 6 (4) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd, Rhan 6 (Asesu Cynlluniau a Phrosiectau) o'r Rheoliadau Cynefinoedd sy'n nodi'r gofynion gweithdrefnol.

Nid oes **dull** statudol ar gyfer cynnal HRA a gall yr ymagwedd amrywio fesul achos, er bod yn rhaid i'r dull a fabwysiedir fod yn briodol i'w ddiben o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau. Er nad yw'r dull wedi ei ragnodi gan y gyfraith, pe canfuwyd nad oedd yn briodol mewn achos penodol gallai

arwain at her yn y Llysoedd. Fel y nodwyd, mae'r **weithdrefn** wedi'i rhagnodi gan y gyfraith, felly, gallai methu â chydymffurfio â'r gweithdrefnau arwain at her gyfreithiol.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y **Comisiwn Ewropeaidd yn 2001 'Asesiad o gynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio'n sylweddol ar safleoedd Natura 2000'** (PDF 673 KB) yn pennu proses asesu pedwar cam sy'n cynnwys nifer o gamau a phrofion y mae angen eu cymhwyso mewn trefn ddilyniannol (Tabl 1 a Ffigur 1). Mae Erthygl 6 (3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ymwneud â gwarchod safleoedd yn llym (Cyfnodau 1 a 2), tra mai Erthygl 6 (4) yw'r weithdrefn i ganiatáu rhanddirymiad o'r warchodaeth lem hon mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig (Cyfnodau 3 a 4). Rhaid cofnodi pob cam yn y broses a gwneud hynny'n ofalus ar gyfer tryloywder ac i olrhain y penderfyniadau a wnaed yn llawn.

Tabl 1: Y camau i'w cymryd yn ystod pob cam o'r broses HRA (ffynhonnell wybodaeth: TAN 5)

Cam	Camau i'w cymryd gan y datblygwr (oni nodir fel arall)
Cam 1 - Sgrinio	<ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi'r holl safleoedd N2K yn yr ardal ac o'i chwmpas. 2. Caffael, archwilio a deall amcanion cadwraeth pob nodwedd o ddiddordeb ym mhob safle N2K a allai gael ei effeithio. 3. Ystyried cynigion y cynllun neu'r prosiect a'r newidiadau y gallant eu hachosi a all fod yn berthnasol i'r safleoedd N2K. Mae hyn yn debygol o olygu amcangyfrif maint, hyd, lleoliad a graddau effeithiau tebygol y newidiadau cyn belled ag y gellir eu rhagfynegi yn rhesymol ar hyn o bryd. 4. Nodi a yw unrhyw elfennau o'r cynllun neu'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw nodwedd o ddiddordeb, ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, os o gwbl. 5. Gofyn am ddatganiad sgrinio swyddogol gan yr awdurdod cymwys e.e. yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Er nad yw'n rhwymedigaeth statudol ar hyn o bryd (dim ond ei angen pan fydd asesiad priodol yn cael ei gynnal), gall awdurdodau cymwys ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (fel yr SNCB) yn ystod y cam sgrinio cynnar hwn er mwyn gofyn am gyngor ynghylch a yw'r effeithiau'n debygol o fod yn arwyddocaol neu i wirio penderfyniad yr awdurdod cymwys ynghylch y tebygolrwydd o gael effeithiau sylweddol. Os yw effeithiau arwyddocaol yn debygol neu'n ansicr, ewch ymlaen i Gam 2.

<p>Cam 2 - Asesiad Priodol</p>	<p>6. Rhoi gwybodaeth i'r awdurdod cymwys fel sy'n rhesymol ofynnol at ddibenion asesu'r goblygiadau ar gyfer safleoedd N2K yn wyneb amcanion cadwraeth perthnasol. Drafftio adroddiad i lywio Asesiad Priodol yr awdurdod cymwys.</p> <p>7. Awdurdodau cymwys: cyn penderfynu rhoi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall ar gyfer cynllun neu brosiect, cynnal Asesiad Priodol o'r goblygiadau i bob safle yr effeithir arno yn wyneb ei amcanion cadwraeth, gan ddefnyddio'r wybodaeth, y gwyddoniaeth a'r wybodaeth dechnegol orau sydd ar gael.</p> <p>8. Awdurdodau cymwys: ymgynghori â'r corff cadwraeth natur priodol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru), a'r cyhoedd yn gyffredinol (os ystyrir hynny'n briodol), ac ystyried unrhyw sylwadau a wneir.</p> <p>9. Awdurdodau cymwys: ystyried a ellid osgoi unrhyw effaith andwyol bosibl ar gyfanrwydd unrhyw safle trwy newidiadau i'r cynllun neu'r prosiect, gan roi ystyriaeth i'r modd y bwriedir gwneud hynny neu i unrhyw amodau neu gyfyngiadau y maent yn eu cynnig, yn amodol ar y ffordd y maent yn cynnig i'r cydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall gael ei roi (mae mesurau lliniaru yn angenrheidiol i osgoi neu leihau effeithiau andwyol, gweler Blwch 2).</p> <p>10. Awdurdodau cymwys: yn wyneb casgliadau'r asesiad, a chan ystyried sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyhoedd, naill ai: cytuno ar y cynllun neu'r prosiect dim ond ar ôl canfod na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safle N2K; neu, os na ellir canfod na fydd y cynllun neu'r prosiect yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safle N2K, ystyried diystyru budd y cyhoedd yng Nghamau 3 a 4.</p>
<p>Cam 3 - Asesu Atebion Amgen</p>	<p>11. Nodi atebion amgen ac asesu'r rhain yn ôl y dull a nodwyd ar gyfer Cam 2.</p> <p>12. Os nad oes atebion amgen ymarferol ar gael, neu os ystyriwyd ac aseswyd pob dewis arall rhesymol, a'r opsiwn lleiaf niweidiol yw'r un a ddewiswyd, ewch ymlaen i Gam 4. Fel arall, dylid rhoi'r gorau i'r cynllun neu'r prosiect.</p>


Cam 4 - IROPI

13. Cyflwyno'r achos am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) (economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol) i ganiatáu i gynllun neu brosiect a fydd yn cael effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle N2K fynd rhagddo (noder nad yw rhesymau cymdeithasol ac economaidd yn berthnasol pe byddai'r prosiect yn effeithio ar gynefinoedd neu rywogaethau blaenoriaeth).

14. Awdurdodau cymwys: Os yw'n fodlon nad oes unrhyw atebion eraill, a bod IROPI yn berthnasol, gofyn am ganiatâd gan Weinidogion Cymru i fwrw ymlaen â'r prosiect.

15. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn mynnu bod mesurau digolledu yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cynllun neu'r prosiect i sicrhau bod cydlynid cyffredinol Natura 2000 yn cael ei warchod. Rhaid i fesurau digolledu fod yn ymarferol, yn bosibl i'w rhoi ar waith, yn debygol o lwyddo, yn gymesur ac yn bosibl i'w gorfodi, a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru (Blwch 3).

Ffigur 1: Trosolwg syml o'r broses HRA



K E Y | Plan or project should not proceed Plan or project can proceed

Blwch 2: Mesurau Lliniaru

Mae dogfen arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd 2000 'Rheoli safleoedd Natura 2000: darpariaethau Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43 / EEC' (PDF 787KB) yn diffinio lliniaru fel:

... measures aimed at minimising or even cancelling the negative impact of a plan or project, during or after its completion.

Gall mesurau gynnwys addasiadau ffisegol ac addasiadau tymhorol i adeiladwaith neu weithrediad y cynllun neu'r prosiect. Er y gall yr ymgeisydd / datblygwr eu cynnig yn ystod yr asesiad priodol, yr awdurdod cymwys fydd yn penderfynu ar y lefel lliniaru sydd ei angen. Dylid glynu at yr Hierarchaeth Lliniaru ganlynol, gyda'r lefel o flaenoriaeth yn cael ei dangos o'r uchaf i'r isaf:

- Osgoi effeithiau yn y ffynhonnell;
- Lleihau'r effeithiau yn y ffynhonnell;
- Lleihau'r effeithiau ar y safle; a
- Lleihau'r effeithiau yn y derbynle.

Er mwyn gallu asesu mesurau lliniaru, mae angen y canlynol: tystiolaeth o sut y byddant yn cael eu sicrhau; pwy fydd yn eu gweithredu; faint o hyder sydd yn eu llwyddiant tebygol; amserlenni ar gyfer gweithredu; sut y byddant yn cael eu monitro; a sut y caiff methiant lliniaru ei gywiro.

Blwch 3: Mesurau Digolledu

Pan fydd yr awdurdod priodol yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol bwrw ymlaen â'r prosiect am resymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI), waeth beth fo'r methiant i ddangos na fydd y prosiect yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd, rhaid darparu'r holl fesurau digolledu angenrheidiol. Bwriad mesurau digolledu yw sicrhau bod cydlyniad ecolegol rhwydwaith Natura 2000 yn cael ei ddiogelu os bydd effaith andwyol ar Safle Ewropeaidd penodol.

Er na chaiff ei ddiffinio yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn ôl **Canllawiau 2001 y Comisiwn Ewropeaidd 'Asesiad o gynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio'n sylweddol ar safleoedd Natura 2000' (PDF 673KB)**, mae mesurau digolledu sy'n briodol i effeithiau andwyol ar safleoedd N2K yn cynnwys adfer, creu, gwella a chadw stoc cynefin. Mae angen eu hasesu i sicrhau eu bod:

- Yn briodol i'r safle a'r golled a achosir gan y prosiect neu'r cynllun;
- Â'r gallu i gynnal neu wella cydlyniad cyffredinol Natura 2000;
- Yn ymarferol; ac
- Yn gallu bod yn weithredol erbyn y bydd y difrod i'r safle wedi cael ei wneud (oni ellir profi bod hyn yn ddianghenraid ar amgylchiadau'r achos).

Ni ellir ystyried y mesurau sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad 'normal' y safle N2K yn iawndal.

Mae'r tri blwch isod (4-6) yn rhoi enghreifftiau diweddar yng Nghymru o gynllun a dau brosiect sydd wedi gofyn am HRA. Fel y nodwyd, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ddigonol i lywio asesiadau'r awdurdod cymwys. Gall gwybodaeth o'r fath gan y datblygwr gynnwys gwybodaeth am effeithiau sylweddol tebygol, datrysiadau lliniaru, dewisiadau amgen rhesymol, a mesurau digolledu posibl. Y gwneuthurwr penderfyniad, h.y. yr awdurdod cymwys, sy'n cynnal yr asesiad sgrinio HRA ar gyfer y cynllun neu'r prosiect. Os oes angen asesiad priodol, bydd yr awdurdod cymwys yn gwneud hyn, ac efallai yr ymghynrhori â'r cyhoedd yn gyffredinol neu efallai ddim.

Blwch 4: HRA o Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Daeth y broses sgrinio HRA a gynhaliwyd gan Capita Symonds ym mis Mehefin 2013 ar ran yr ymgeisydd, Cyngor Sir Penfro, i'r casgliad bod gan ddau fesur o **Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (LFRMS) (PDF 551KB)** y potensial i gael effeithiau andwyol sylweddol ar ddeg o'r safleoedd N2K a nodwyd. Felly, aeth y broses ymlaen i Gam 2. Datgelodd yr asesiad priodol y gallai'r mesurau effeithio ar gyfanrwydd dau o'r safleoedd hyn oherwydd y posibilrwydd o newidiadau i lifoedd dŵr.

Fodd bynnag, o ystyried natur strategol y Strategaeth Leol ar gyfer rheoli Perygl Llifogydd (mae maint, hyd, lleoliad a graddau'r gwaith a fydd yn cael ei wneud o dan y Strategaeth i'w penderfynu ar lefel prosiect), penderfynwyd y gellid cymeradwyo'r Strategaeth heb fod angen Camau 3 neu 4 y broses. Yn lle hynny, bydd angen cynnal HRA pellach ar gynlluniau a phrosiectau haen is sy'n datblygu'r mesurau hyn.

Blwch 5: HRA o brosiect fferm wynt ar y tir - Fferm Wynt Mynydd y Gwynt

Cafodd y datblygiad fferm wynt 27 tyrbîn arfaethedig yng nghanolfan rali Sweet Lamb yn Y Foel ei wrthod yn ffurfiol gan Amber Rudd, yr **Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd** ar 20 Tachwedd 2015, yn dilyn proses archwilio chwe mis gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Yn ystod yr archwiliad, mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryder y gallai barcutiaid coch, nodwedd gymhwysol Ardal Gadwraeth Arbennig Elenydd - Mallaen gerllaw, "wrthdaro â'r llafnau" a chael eu "trydanu" ar y llinellau grid. Dadleuodd yr Ymgeisydd, Mynydd y Gwynt Cyf, nad oedd barcutiaid coch a ganfuwyd ar y safle yn deillio o'r Ardal Gadwraeth Arbennig, rhagdybiaeth yn seiliedig ar "arolygon cyfyngedig nad ydynt yn bodloni canllawiau arfer gorau" yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ben hynny, ni ddarparwyd "ffigurau risg gwrthdrawiad digon cadarn".

Daeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r casgliad nad oedd digon o wybodaeth ar gael i benderfynu a fyddai "effaith andwyol ar gyfanrwydd nodwedd barcud coch Ardal Gadwraeth Arbennig Elenydd - Mallaen", felly mae'n rhaid gwrthod y datblygiad arfaethedig. At hynny, nid oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ystyried y cais fel rhanddirymiad o dan Reoliad 64 o'r Rheoliadau Cynefinoedd (Camau 3 a 4 y broses HRA), gan fod diffyg gwybodaeth ddigonol yn golygu na ellid penderfynu ar y dewis amgen lleiaf niweidiol.

Blwch 6: HRA o brosiect ynni adnewyddadwy morol - Morlyn Llanw Bae Abertawe

Cynhaliwyd asesiad sgrinio HRA gan y datblygwr ar gyfer prosiect Morlyn Llanw 320 MW Bae Abertawe (PDF 2.3MB) yn 2013. Daeth y broses i'r casgliad bod potensial ar gyfer effeithiau andwyol sylweddol i nodweddion cymhwysu pum safle N2K, gan gynnwys cynefinoedd twyni ac arfordirol, dyfrgwn a physgod. Fel y cyfryw, aeth y safleoedd a'r nodweddion hyn ymlaen i gam nesaf y broses HRA. Daeth Asesiad Priodol y datblygwr i'r casgliad yn 2014 (PDF 4MB) "na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd a nodweddion Natura 2000 o ganlyniad i'r Prosiect, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill".

Rhoddodd Amber Rudd, AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, ganiatâd cynllunio i'r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol hwn pan ddyfarnodd Orchymyn Caniatâd Datblygu ar 9 Mehefin 2015.

4. A ellir herio penderfyniad HRA?

Os yw dinesydd yn dymuno herio penderfyniad a wnaed gan awdurdod lleol sy'n ymwneud â HRA, efallai yr hoffai fynd ar drywydd adolygiad barnwrol o'r penderfyniad. Fodd bynnag, byddai gwneud cais am adolygiad barnwrol yn gofyn am gyngor cyfreithiol arbenigol, a gall fod yn ddrud iawn. Pe bai'r adolygiad barnwrol yn aflwyddiannus, gyda'r barnwr yn dyfarnu o blaid yr awdurdod lleol, gallai'r dinesydd ystyried a ddylid gofyn am ganiatâd i apelio i'r Llys Apêl. Os yw'r apêl hefyd yn aflwyddiannus, efallai y bydd apeliadau pellach yn bosibl i Oruchaf Lys y DU, ac yna'n olaf i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Gall dinasyddion tramgwyddedig gysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch unrhyw gamau gweinyddol, diffyg gweithredu neu ymarfer gan awdurdod cyhoeddus mewn Aelod-wladwriaeth y credir ei fod yn erbyn cyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Ionawr 2015 cyflwynodd yr RSPB her gyfreithiol yn erbyn adeiladu ffermydd gwynt yn Aber Gweryd a'r Firth of Tay a gymeradwywyd gan weinidogion yr Alban ym mis Hydref 2014. Ym mis Gorffennaf 2015, cadarnhaodd Llys y Sesiwn yr her, gan nodi bod yr asesiad priodol wedi ystyried ystyriaethau amherthnasol, wedi defnyddio'r prawf cyfreithiol anghywir, a chyrraedd casgliad 'anweledig' mewn perthynas â risg ornitholegol. Apeliodd Llywodraeth yr Alban yn erbyn y penderfyniad hwn, a daeth barnwr uchaf yr Alban i'r casgliad bod y barnwr cynharach wedi dehongli'r gyfraith yn anghywir, ac nad oedd yr asesiad priodol yn ddiffygiol.

5. Ffynonellau Allweddol

Llywodraeth Cymru

- Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, [Tachwedd 2016](#)
- Llywodraeth Cymru: [Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur \(2009\)](#)

Deddfwriaeth Allweddol

- [Cyfarwyddeb yr UE 92/43 / EEC](#) (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)
- [Cyfarwyddeb yr UE 2009/147 / EC](#) (y Gyfarwyddeb Adar)
- [Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017](#) (y Rheoliadau Cynefinoedd)
- [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017](#)

Y Comisiwn Ewropeaidd

- [Asesiad o gynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio'n sylweddol ar safleoedd Natura 2000 \(2001\) \(PDF 673KB\)](#)
- [Rheoli safleoedd Natura 2000: darpariaethau Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 92/43 / EEC \(2000\) \(PDF 787KB\)](#)
- [Dogfen ganllawiau ar seilwaith trosglwyddo ynni a Natura 2000 a rhywogaethau a warchodir gan yr UE \(drafft terfynol 2014\) \(PDF 4.2 MB\)](#)
- [Ynni Dŵr a Natura 2000: Canllaw arfer da \(drafft diwygiedig 2016\) \(PDF 5.7 MB\)](#)

Yr Arolygiaeth Gynllunio

- [Nodyn cyngor deg: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol \(2012\) \(PDF 1.1 MB\)](#)

Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: [Gwasanaeth Ymchwil](#)